Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwybodaeth ategol ar gyfer yr Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024

Hydref 2022

# Cynnwys


Crynodeb o'r Amcangyfrif 3

Trosolwg o Amcangyfrif 2023-24 3

Ein hymateb i'r Datganiad o Egwyddorion 5

Ein Strategaeth 5 Mlynedd 7

Cyllideb Refeniw 2023-24 9

Costau ac arbedion refeniw 9

Incwm o Ffioedd 14

Ein defnydd o Gronfa Gyfunol Cymru 2023-24 18

Sut yr ydym yn defnyddio Cronfa Gyfunol Cymru 18

Gwaith archwilio a gyllidir o Gronfa Gyfunol Cymru 21

Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru er budd y sector cyhoeddus ehangach 23

Buddsoddiad cyfalaf 25

Addasiadau IFRS16 27

Gofynion Cyllido yn y Dyfodol 29

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 29

Cynllun Ariannol Tymor Canolig 30

**Atodiadau 31**

1 Cyllideb Refeniw 2023-24 32

2 Cynllun Ffioedd Drafft 2023-24 33

# Crynodeb o'r Amcangyfrif

## Trosolwg o Amcangyfrif 2023-24

1 Gyda'r amcangyfrif hwn rydym yn gofyn am gynnydd o ychydig o dan 3% o arian parod a 3.8% o adnoddau, gan gynnwys addasiadau IFRS16, yn ein galwad sylfaenol ar gyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn 2023-24.

2 Caiff ein newid ar y cyfan yn y gofynion cyllido – ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru ac incwm o ffioedd ar gyfer 2023-24 ei nodi yn **Arddangosyn 1**.

3 Caiff yr holl fuddsoddiad cyfalaf ei gyllido o Gronfa Gyfunol Cymru drwy'r Amcangyfrif hwn. Mae'r buddsoddiad cyfalaf mawr a gynlluniwyd ar gyfer 2023-24 sy'n gysylltiedig â symud o'n swyddfa yng Nghaerdydd wedi ei ddwyn ymlaen i 2022-23 trwy Amcangyfrif Atodol.

### Arddangosyn 1: newidiadau yn ein gofynion cyllido rhwng 2022-23 a 2023-24

| | Cronfa Gyfunol Cymru (Refeniw) £'000 | Cronfa Gyfunol Cymru (Cyfalaf) £'000 | Cronfa Gyfunol Cymru (Cyfanswm) £'000 | Ffioedd £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell Sylfaen 2022-23** | **8,298** | **310** | **8,608** | **15,082** | **23,690** |
| Costau staff uwch | 272 | - | 272 | 430 | 702 |
| Staffio ISA315 | - | | - | 800 | 800 |
| Arbedion ar deithio | (68) | - | (68) | (135) | (203) |
| Arbedion ar lety | (74) | - | (74) | (148) | (222) |
| Seiberddiogelwch a TGCh | 60 | - | 60 | 6 | 66 |
| Hyfforddiant allanol | 50 | - | 50 | 13 | 63 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 43 | | 43 | 85 | 128 |
| Cyllid un flwyddyn y Fenter Twyll Genedlaethol | (35) | - | (35) | - | (35) |
| IFRS16 | 80 | - | 80 | - | 80 |
| **Llinell Sylfaen 2023-24** | **8,626** | **310** | **8,936** | **16,133** | **25,069** |
| Gostyngiad dros 2 flynedd mewn LT | (354) | - | (354) | - | (354) |
| Gostyngiad cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | (130) | - | (130) | - | (130) |
| **Cyfanswm 2023-24** | **8,142** | **310** | **8,452** | **16,133** | **24,585** |

## Ein hymateb i'r Datganiad o Egwyddorion

4 Ar 14 Gorffennaf 2022 fe ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn nodi'r ffactorau i oleuo'r broses o gynllunio cyllidebau yn y dyfodol ac asesiad gorau'r Llywodraeth o lefel y cyllid sydd ar gael mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

5 Roedd y llythyr yn ei gwneud yn glir nad oes rhyw lawer o dwf mewn termau arian parod yng nghynlluniau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25 a bod ansicrwydd sylweddol yn dal i fod ynghylch y cyllid a fydd ar gael yn y blynyddoedd sydd i ddod.

6 Fel pob corff cyhoeddus rydym yn wynebu pwysau chwyddiant nas gwelwyd am flynyddoedd lawer. Mae'r llythyr yn cyfeirio at chwyddiant yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 11% yn ddiweddarach yn 2022-23 a chodiadau cyflog cyfartalog eleni o 5.1%. Mae'r sefyllfa'n dal i fod yn gyfnewidiol gyda rhagolygon mwy diweddar yn awgrymu codiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o hyd at 14% erbyn diwedd y flwyddyn.

7 Mae dros 80% o'n costau ni mewn perthynas â'n staff sydd, eu hunain, yn dioddef effeithiau'r argyfwng costau byw sy'n wynebu economi'r DU. Yn 2022-23 fe wnaethom gytuno ar godiad cyflog o 3% i'n staff. Er ei fod yn sylweddol is na chwyddiant, roedd hyn yn fwy nag y darparwyd ar ei gyfer yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2022-23 a bu'n rhaid ei gyllido trwy wneud arbedion ar feysydd eraill yn y gyllideb.

8 Ar gyfer 2023-24, o ystyried y rhagolygon cyfredol y bydd chwyddiant yn sylweddol, a lefel y codiadau cyflog a welir yn ehangach, rydym wedi gwneud darpariaeth ar gyfer codiad cyflog pellach ond cymedrol . Mae Archwilio Cymru yn cystadlu'n uniongyrchol gyda'r sector preifat i ddenu a chadw'r staff proffesiynol y mae eu hangen arnom. Rydym yn gynyddol yn methu â chynnig yr un lefel o gydnabyddiaeth ariannol ag a gynigir gan gwmnïau archwilio'r sector preifat, gan olygu mai colli talent ac arbenigedd yw'r risg fwyaf un i'r sefydliad.

9 Hefyd, ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon yn 2022-23, rydym yn gorfod ymateb i safon archwilio newydd, ISA315[1] – safon sylfaen sy'n llywio ein dull archwilio ar y cyfan – a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu staff sy'n fwy profiadol ac yn meddu ar gymwysterau proffesiynol uwch ar gyfer archwiliadau – gan arwain at gynnydd disgwyliedig yn ein graddfeydd ffioedd a fydd rhwng 12% a 18%. Er nad yw hyn yn cael effaith ar y cyllid y mae ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru, mae'n effeithio ar ein costau staffio, incwm o ffioedd a'r Cynllun Ffioedd drafft sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r Amcangyfrif hwn.

1 ISA (UK) 315 Adnabod ac Asesu'r Risgiau o Gamddatganiadau Perthnasol

10 Rydym yn ymateb i'r pwysau hyn o ran costau trwy nodi arbedion lle y bo modd ar ein cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau. Yn 2021, fe wnaethom gytuno gyda staff y byddem yn cael gwared ar eu hawl i lwfans teithio sefydlog gan nad oedd hyn yn cynrychioli gwerth am arian i Archwilio Cymru mwyach. 2023-24 yw'r ail o ddwy flynedd drosiannol sy'n gysylltiedig â'r cytundeb hwn. Rhagwelir arbedion o £200,000 y flwyddyn unwaith y bydd trefniadau trosiannol yn dod i ben yn 2024.

11 Ym mis Mawrth 2023 byddwn yn adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd o Heol y Gadeirlan i swyddfa newydd yn Ardal Fenter Cwr y Ddinas. Bydd y swyddfa sylweddol lai hon yn dwyn arbedion o dros £220,000 y flwyddyn.

12 Costau teithio a'n hystâd oedd y ddwy gyllideb nad oeddent yn ymwneud â staff lle gellid gwneud arbedion o faint sylweddol. Gyda thua 84% o'n costau yn gysylltiedig â staff, bydd yn fwyfwy anodd adnabod arbedion pellach heb effeithio ar gyflawni ein dyletswyddau statudol.

13 Rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i reoli pwysau prisiau o adnabod arbedion ar ein cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau fel a nodir uchod. Gan y bydd y cynnydd anochel mewn costau sy'n gysylltiedig ag ISA315 yn cael ei adfer trwy ffioedd rydym wedi gallu cyfyngu'r cynnydd yn ein galwad sylfaenol ar Gronfa Gyfunol Cymru y flwyddyn nesaf i ychydig o dan 3%.

# Ein strategaeth 5 mlynedd

SICRHAU
ESBONIO
YSBRYDOLI

Manteisio i'r eithaf ar ein safbwynt unigryw, ein harbenigedd a thrylwyredd ein gwybodaeth

Cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodol, annibynnol, yr ymddiriedir ynddo

Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd

Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Rhaglen archwilio strategol, dynamig, o ansawdd uchel

Dull wedi'i dargedu ac effeithiol o gyfathrebu a dylanwadu

Diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu yn awr ac yn y dyfodol

| Ein Ffocws | Ein amcangyfrif 2023-24 | Ein golwg 5 mlynedd |
|---|---|---|
| **Rhaglen archwilio strategol, dynamig, o ansawdd uchel** | Cwblhau ein datblygiad a gweithredu meddalwedd platfform archwilio newydd ar gyfer ein gwaith archwilio Ariannol a Pherfformiad i yrru ansawdd ac effeithlonrwydd.<br>Parhau i fuddsoddi mewn ansawdd archwilio.<br>Ymateb i safon archwilio newydd, ISA315, a fydd yn gofyn i ni ddarparu adnoddau nifer sylweddol o'n harchwiliadau gyda staff mwy cymwys. | Colli gwaith archwilio cronfeydd amaethyddol yr UE.<br>Dull archwilio newydd.<br>Mwy o gyrff mewn lle i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>Archwilio amgylcheddol. |
| **Dull wedi'i dargedu ac effeithiol o gyfathrebu a dylanwadu** | Cychwyn datblygu ein gwefan allanol i fodloni ein gofynion rhanddeiliaid yn well. | |
| **Diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu yn awr ac yn y dyfodol** | Adolygu ein strategaeth gweithlu i nodi sut rydym yn bodloni gofynion ein gweithlu yn y dyfodol, gan gydnabod bod ein pecyn cyflog ar gyfer staff cymwys yn dod yn fwyfwy anghystadleuol mewn marchnad lle mae prinder byd-eang o staff archwilio sydd â chymwysterau proffesiynol.<br>Parhau i fuddsoddi mewn mesurau diogelwch seibr ychwanegol a sicrhau bod ein darpariaeth TGCh yn gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg sydd ar gael, gan fanteisio ar yr atebion digidol sydd ar gael wrth gyflawni ein gwaith. | Adnabod arbedion parhaus ar ein cyllidebau nad ydynt yn talu, gan gynnwys gwireddu arbedion rhagolygol o gael gwared ar lwfans teithio sefydlog ar ôl i ni ddod â'n trefniadau trosiannol i ben yn 2024, ac yn dilyn symud i swyddfa sy'n sylweddol llai.<br>Adolygu ymhellach ein gofynion llety yng Ngogledd a Gorllewin Cymru yn seiliedig ar ein patrymau gwaith sy'n dod i'r amlwg dros y blynyddoedd nesaf gan dargedu gostyngiadau yng nghyfanswm ein gwariant ar deithio a chynhaliaeth. |


# Cyllideb refeniw 2023-24


## Costau ac arbedion refeniw

14 Mae ein cyllideb refeniw ar gyfer 2023-24 wedi'i gosod yn unol â'r uchelgeisiau yn ein strategaeth 5 mlynedd ac fe'i crynhoir yn **Atodiad 1**.

15 Mae **Arddangosyn 2** yn crynhoi ein gwariant a chyllid refeniw arfaethedig ar gyfer 2023-24.

**Arddangosyn 2: ein gwariant a'n cyllid 2023-24**



## Costau staff

16 Mae tua 84% o'n cyllideb yn cyllido cyflogau ac argostau cysylltiedig ar gyfer ein 288 o weithwyr CagALl a gyflogir i gyflawni ein gwaith archwilio ledled Cymru – naill ai'n uniongyrchol neu i gefnogi'r broses o wneud y gwaith archwilio hwn.

17 Roedd ein Hamcangyfrif ar gyfer 2022-23 yn nodi cyllid ychwanegol ar gyfer buddsoddi mewn ansawdd archwilio mewn ymateb i safonau archwilio ac ansawdd newydd a chymhleth ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon.

18 Yn wreiddiol roeddem wedi rhagweld y byddai angen yr arian yma am 2 flynedd tra oeddem yn asesu'r angen yn y dyfodol. Mae'n amlwg bellach i ni, a'r proffesiwn archwilio cyfan ledled y byd, bod graddfa a chyflymder datblygu archwilio, ynghyd â disgwyliad cynyddol rheoleiddwyr, yn golygu y bydd angen buddsoddiad parhaus a chyson mewn ansawdd archwilio.

19 Ar yr un pryd, rydym yn dechrau ei chael hi'n anos recriwtio a chadw'r staff o ansawdd y mae eu hangen arnom i gyflawni ein gwaith archwilio mewn amgylchedd mwyfwy cystadleuol. Mae heriau tebyg yn cael eu hwynebu gan y cyrff archwilio cyhoeddus eraill sydd hefyd yn profi pwysau sylweddol o ran costau a drosglwyddir gan gwmnïau archwilio a gyflogir i gyflawni elfennau o'r rhaglen o waith archwilio.

20 Roedd erthygl newyddion ddiweddar yn tynnu sylw at y buddsoddiad arfaethedig gan 2 o'r cwmnïau archwilio preifat mawr. Er enghraifft:

- Mae Deloitte yn bwriadu recriwtio 6,000 yn fwy o staff dros y pum mlynedd nesaf (llawer ohonynt y tu allan i Lundain).
- Mae Deloitte yn bwriadu recriwtio 855 o raddedigion ac ymadawyr ysgol archwilio a sicrwydd yn 2022 (cynnydd o 30% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol).
- Mae Azets yn bwriadu ychwanegu 900 o swyddi ledled y DU dros y 12 mis nesaf, gan gynnwys hyd at 400 o raddedigion ac ymadawyr ysgol erbyn mis Medi 2023 (100 yn fwy na'r 300 sy'n ymuno fis nesaf).
- Bydd Deloitte UK yn buddsoddi mwy na £125m mewn gwelliannau i gynnyrch ac ansawdd archwilio'r cwmni, yn ogystal ag ar ddysgu a datblygu ar gyfer ei dimau archwilio a sicrwydd.

21 Mae'r ffigyrau hyn yn ymwneud â'r DU. Nid ydynt ar eu pennau eu hunain. Y llynedd cyhoeddodd EY fuddsoddiad byd-eang mewn trawsnewid archwilio o US$10bn rhwng 2022 a 2024.

22 Byddai'n hawdd diystyru'r cyhoeddiadau hyn ar y sail bod y cwmnïau hyn yn gweithredu ar raddfa a chymhlethdod sy'n wahanol i Archwilio Cymru. Mae hyn yn wir, ond mae dwy ystyriaeth berthnasol iawn i Archwilio Cymru:

- rydym mewn cystadleuaeth uniongyrchol gyda'r cwmnïau hyn pan fyddwn yn recriwtio staff newydd. Mae gweithredu yn y farchnad hynod gystadleuol hon yn erbyn rhai o gwmnïau gwasanaethau proffesiynol mwyaf a mwyaf proffidiol y byd yn ein rhoi mewn sefyllfa unigryw o'i gymharu â sefydliadau cyhoeddus eraill.
- er bod ein graddfa a'n cymhlethdod yn wahanol, rydym yn ceisio ymgodymu â'r un materion â'r cwmnïau, gan gynnwys risgiau i ansawdd archwilio a'r heriau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid archwilio, archwilio risg hinsawdd, data, seiber, technolegau sy'n dod i'r amlwg a dadansoddeg ynghyd â'r angen parhaus i fuddsoddi mewn dysgu a datblygu.

23 Er ein bod yn dal i fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau gwerth i bwrs y wlad, rhaid i ni gydnabod y bydd buddsoddi mewn trawsnewid ein holl ddulliau archwilio'n golygu bod angen buddsoddiad cyson a pharhaus.

24 Ar 3 Hydref 2022, cyhoeddodd [2] Public Sector Audit Appointments Ltd (PSAA) - y corff sy'n cynnal ymarferion caffael archwilwyr ar gyfer 99% o gyrff llywodraeth leol yn Lloegr - ei fod wedi cwblhau'r ymarfer caffael ar gyfer archwiliadau sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2023-24 a 2027-28.

25 Roedd y cyhoeddiad hwn yn cynnwys y diweddariad canlynol am ffioedd archwilio llywodraeth leol yn Lloegr:

> “At this stage our advice to bodies is to anticipate a major re-set of total fees for 2023/24 involving an increase of the order of 150% on the total fees for 2022/23. The actual total fees will depend on the amount of work required.”

26 Er bod elfen o'r cynnydd hwn yn adlewyrchu anawsterau penodol yn y farchnad archwilio leol yn Lloegr, gan bod y cyhoeddiad yn nodi bod y cynnydd hefyd yn adlewyrchu'r ffaith '... recruitment and retention and regulatory risks are now even more pronounced'. Fel yr ydym wedi nodi, mae'r rhain yn ffactorau sy'n bresennol ar draws y proffesiwn archwilio cyfan ac yn cynrychioli ffactorau sylfaenol sy'n dylanwadu ar gostau ar gyfer Archwilio Cymru.

2 Datganiad i'r wasg: Cyhoeddiad PSAA am Ganlyniad yr Ymarfer Caffael – PSAA

27 Rydym dan bwysau cynyddol, oherwydd yr argyfwng costau byw presennol a phrinder byd-eang staff archwilio sydd â chymwysterau proffesiynol, i gynyddu'r swm yr ydym yn ei dalu i'n staff. Yn unol â'r cyfarwyddyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol rydym wedi tybio y bydd yn rhaid talu am unrhyw gynnydd uwchben y ddarpariaeth fach a ganiateir o arbedion ar feysydd eraill yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae'n fwyfwy anodd gwneud hynny heb beryglu lles staff a'n gallu i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

28 Rydym wedi gwneud darpariaeth ar gyfer costau staff uwch o £0.8m yn 2023-24 i gyflawni ein rhwymedigaethau ISA315 – a gyllidir yn llawn â ffioedd archwilio uwch. Amcangyfrif yn unig yw hwn i ddarparu hyblygrwydd digonol yn yr Amcangyfrif ar gyfer rhoi'r safon newydd ar waith. Bydd ein gwaith pennu ffioedd manwl yn penderfynu i ba raddau y bydd angen yr adnoddau ychwanegol hyn.

29 Rydym yn adolygu ein strategaeth ar gyfer y gweithlu er mwyn canfod sut y gallwn ateb ein gofynion o ran y gweithlu yn y dyfodol. Mae ein cynllun hyfforddiant i raddedigion yn rhoi'r cyfle inni recriwtio a hyfforddi ein harchwilwyr cymwys ar gyfer y dyfodol, ond rydym yn cydnabod bod y farchnad ar gyfer staff cymwysedig yn dod yn fwyfwy cystadleuol ac rydym yn parhau i adolygu ein pecyn buddion cyffredinol er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn.

30 Mae ein cyllideb staffio yn cynnwys darpariaeth ar gyfer arbedion disgwyliedig o 5% oherwydd trosiant staff naturiol yn ystod y flwyddyn. Er ein bod wedi cwrdd â'r lefel yma yn y blynyddoedd diwethaf, ceir risg o ran morâl staff, fel y dengys canlyniadau'r arolwg staff, a llai o incwm o ffioedd os nad oes gennym y staff ar gael i greu'r incwm fel a fwriadwyd.

## Swyddfeydd

31 Mae Archwilio Cymru ar hyn o bryd yn prydlesu tair swyddfa yng Nghaerdydd, Penlle'r-gaer ac Abergele am gyfanswm cost o ychydig o dan £1m yn 2022-23. Gan bod y prydlesi i fod i ddod i ben yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, rydym wedi manteisio ar y cyfle i ail-ystyried a yw'r swyddfeydd hyn yn ateb ein gofynion o ran gweithleoedd ar gyfer y dyfodol.

32 Trwy bandemig COVID, bu'r rhan fwyaf o'n staff yn gweithio o bell ond rydym wedi sylweddoli, ar gyfer ein staff archwilio yn arbennig, nad hwn oedd y trefniant gorau posibl, a thros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn treialu trefniadau gweithio hybrid amgen fel rhan o'n prosiect Gweithleoedd ar gyfer y Dyfodol i asesu ein hanghenion o ran swyddfeydd yn y dyfodol.

33 Fel a nodwyd yn ein Hail Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022-23 rydym wedi penderfynu adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd i adeilad llai gan ddwyn arbedion o tua £220,000 y flwyddyn – gan leihau ein cyllideb ar gyfer swyddfeydd yn 2023-24 i ychydig o dan £800,000 er gwaethaf cynnydd mewn costau ynni.

34 Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad pellach o'n gofynion o ran gweithleoedd yng Ngogledd a Gorllewin Cymru yn seiliedig ar ein patrymau gwaith a ddaw i'r amlwg dros y blynyddoedd nesaf. Mae angen i ni ddeall yn well i ba raddau y gall ein timau archwilio barhau i weithio yn ein swyddfeydd yn hytrach nag mewn cyrff a archwilir. Mae gweithio yn ein swyddfeydd yn dwyn arbedion o ran costau teithio ac amser teithio ond mae angen taro cydbwysedd rhwng hyn a'r gofyniad i sicrhau ansawdd archwilio – mae cyfuniad o'r ddau ddull yn debygol o ddarparu'r ateb gorau posibl.

## Teithio a Chynhaliaeth

35 Yn 2019-20 gwariodd Archwilio Cymru £1.1m ar deithio a chynhaliaeth gan gynnwys £638,000 ar Lwfans Teithio blynyddol sefydlog ar gyfer ein staff symudol a £445,000 ar daliadau milltiroedd a chynhaliaeth.

36 Yn dilyn adolygiad gwerth am arian gan ein harchwilwyr allanol, fe wnaethom y penderfyniad i dynnu'r lwfans teithio sefydlog oddi ar staff. Cytunwyd ar drefniadau trosiannol, gan gynnwys cynnig taliad ymlaen llaw neu gadw hawl i lwfans teithio tan fis Mawrth 2024 gyda'n staff. Cafodd y taliad ymlaen llaw ei gyllido'n rhannol o Amcangyfrif Atodol yn 2021-22 gyda'r cytundeb bod hwn yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru dros y 2 flynedd ganlynol.

37 Ers pandemig COVID, rydym hefyd wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn teithio wrth i'n staff symud i drefniadau gweithio hybrid newydd. Mae staff archwilio'n gweithio i raddau helaeth yn ein swyddfeydd ein hunain neu gartref yn hytrach nag mewn cyrff a archwilir, gan leihau ein costau ac effaith amgylcheddol teithio.

38 O ganlyniad i'r newidiadau hyn, rydym yn disgwyl i gyfanswm ein gwariant ar deithio a chynhaliaeth yn 2023-24 ostwng i £435,000 – gostyngiad o 60% o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

### TGCh

39 Er mwyn hwyluso ein trefniadau gweithio newydd yn ogystal â galluogi ein buddsoddiad mewn dadansoddeg data, mae ein costau TGCh wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Ar gyfer 2023-24 rydym yn bwriadu gwario £66,000 yn ychwanegol ar TGCh, y bydd £60,000 ohono yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mesurau seiberddiogelwch ychwanegol yr ydym yn gofyn am gyllid ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru ar eu cyfer.

### Hyfforddiant allanol

40 Bydd ein cyllideb ar gyfer hyfforddiant allanol yn cynyddu £63,000 yn 2023-24, y mae £50,000 ohono'n ymwneud â chostau uwch sy'n gysylltiedig â'n rhaglen hyfforddiant ariannol.

### Dibrisiant

41 Mae ein cyllideb ar gyfer dibrisiant wedi cynyddu £80,000 yn 2023-24 gan gynnwys effaith IFRS16 ar ein hadeiladau a brydlesir. Addasiad cyfrifyddu yn unig yw hwn ac ni fydd angen unrhyw arian parod ychwanegol ar ei gyfer yn 2023-24.

## Incwm o ffioedd

42 Ar gyfer 2023-24 rydym yn bwriadu cyllido tua 66% o'n gwariant â'r ffioedd yr ydym yn eu codi ar gyrff archwilio. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni godi 'dim mwy na chost llawn' y gwaith archwilio ym mhob corff a archwilir. Rydym yn cyfrifo'r gost lawn hon yn seiliedig ar ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn a'r cyfraniad o Gronfa Gyfunol Cymru tuag at ein costau rhedeg.

43 Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol ar bob rhan o'r sector cyhoeddus a'n cyfrifoldeb i gyflawni ein gwaith archwilio mewn modd mor effeithlon â phosibl. Rydym yn ymdrechu'n gyson, felly, i leihau cost gyffredinol archwilio i gyrff cyhoeddus heb aberthu ansawdd archwilio.

44 Mae'r incwm yr ydym yn ei gael o ffioedd yn cael ei lywodraethu gan Gynllun Ffioedd, a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol ein bod ni'n cyhoeddi Cynllun Ffioedd o leiaf yn flynyddol.

45 Wedi'i gynnwys yn y ddogfen Amcangyfrif hon mae ein Cynllun Ffioedd drafft ar gyfer 2023-24 (Atodiad 2). Cynhwyswyd hwn i ddangos y gyd-ddibyniaeth rhwng incwm o ffioedd a'r Amcangyfrif cymeradwy. Ar ôl ystyried yr Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd drafft, byddwn yn gosod ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2023-24 gerbron y Senedd ac yna'n cadarnhau ffioedd amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn nesaf wrth ein cyrff a archwilir.

## Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd

46 Mae pwysau chwyddiant ynghyd â buddsoddiad parhaus mewn ansawdd archwilio wedi arwain at gynnydd cyfartalog yn ein cyfraddau ffioedd o 4.8%.

47 Hefyd, ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23, mae'n rhaid i ni gymhwyso safon archwilio ddiwygiedig (ISA315) yr ydym yn rhagweld y bydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddefnyddio staff â chymwysterau proffesiynol uwch ar y mwyafrif llethol o'n harchwiliadau.

48 Cyhoeddwyd y safon ddiwygiedig gyda golwg ar foderneiddio dulliau archwilio, gan ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar feysydd lle ceir y risg fwyaf ac adlewyrchu'r defnydd cynyddol o dechnoleg gan archwilwyr a chyrff a archwilir. Mae ei rhyddhau yn cyd-daro â chyfres o fethiannau corfforaethol gan gynnwys Carillion ac eraill fel a adlewyrchir yn adroddiadau'r Cyngor Adrodd Ariannol ar gamau gorfodi [3], gan roi hyd yn oed mwy o bwyslais ar yr angen am ei gweithredu'n llwyddiannus i gynnal a gwella ansawdd archwilio.

49 Mae'r newidiadau mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â'r gofynion i archwilwyr ddeall yn fanylach sut y mae ffigyrau'n llifo i mewn i gyfrifon ac ar gyfer adnabod ac asesu risgiau o gamddatganiadau perthnasol. Yn fras, mae'r newidiadau hyn yn gofyn am waith manylach i adnabod, dadansoddi ac asesu risgiau y gallai'r cyfrifon fod wedi'u camddatgan yn berthnasol.

50 Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i ni ddefnyddio archwilwyr â chymwysterau uwch a mwy o brofiad ar yr archwiliadau hynny y mae'r safon yn berthnasol iddynt – gan gynyddu ein costau staff a'r ffioedd cysylltiedig ar gyfer y gwaith.

51 Mae'r defnydd o fwy o uwch aelodau fel rhan o'r cymysgedd o staff ynghyd â'r cynnydd yng nghyfraddau'r ffioedd wedi arwain at gynnydd amcangyfrifedig yn ein graddfeydd ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon o 12-18%. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a fydd y cynnydd hwn yn cael ei gynnal mewn blynyddoedd yn y dyfodol gan y bydd hyn yn debygol o ddibynnu ar ffactorau risg mewn cyrff unigol a archwilir. Bydd y ffi wirioneddol a ysgwyddir gan unrhyw sefydliad unigol yn dibynnu ar ystod o ffactorau gan gynnwys ei broffil risg ac ansawdd y cyfrifon drafft a gyflwynir i ni i'w harchwilio.

3 Enforcement-sanctions-imposed-against-Audit-firms-and-Audit-partners-September-2022.pdf (frc.org.uk)

## Ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd

52 Ym mis Awst 2022, fe wnaethom ymgynghori â'r holl gyrff a archwilir a grwpiau cynrychioliadol ar ein graddfeydd ffioedd arfaethedig ar gyfer 2023-24 a oedd yn darparu ar gyfer cynnydd amcangyfrifedig o 5.5% yng nghyfraddau ein ffioedd

53 Cawsom 17 ymateb a ddywedodd wrthym:

- y byddai'r cynnydd arfaethedig yng nghyfraddau ein ffioedd ac, yn benodol, y cynnydd yng ngraddfeydd ein ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon sy'n gysylltiedig ag ISA315, yn gryn her i'r cyrff hynny y cyfyngir ar eu cyllidebau eu hunain gan setliadau cyllid ac sy'n wynebu'r un pwysau costau byw ag Archwilio Cymru.
- bod cyrff a archwilir yn gwerthfawrogi'r gwaith yr ydym yn ei wneud ac yn cydnabod nad oes modd osgoi rhoi ISA315 ar waith.
- roedd ymateb ar y cyd gan Undebau Llafur PCS a Prospect yn cyfeirio at y ffaith na fyddai'r cynnydd arfaethedig mewn cyfraddau ffioedd yn darparu ar gyfer codiad cyflog yn 2023-24 a fyddai'n gyson â chwyddiant sydd ar hyn o bryd yn 10%. Fe ofynnon nhw i Archwilio Cymru wneud darpariaeth ariannol ar gyfer codiad cyflog sy'n cyfateb i chwyddiant.
- roedd yr amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad, a oedd yn seiliedig ar y gofyniad i gynnwys Cynllun Ffioedd drafft o fewn yr Amcangyfrif hwn, yn anodd i nifer o gyrff.

54 Gwnaethom ofyn yn benodol i gyrff a archwilir a Llywodraeth Cymru wneud sylwadau ar y newid arfaethedig o ffioedd i Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer cyfran o'n gwaith Archwilio Perfformiad lleol. Dim ond 3 ymateb a gawsom gan gyrff a archwilir ar y pwynt hwn:

- pryder gan un Awdurdod Unedol y gallai'r adolygiadau thematig arfaethedig fod yn llai perthnasol na'r gwaith archwilio perfformiad lleol
- ymholiad gan un Awdurdod Tân ac Achub pam nad oedd y newid yn berthnasol i'w gwaith hwy, ac
- ymateb gan Lywodraeth Cymru a oedd yn pwysleisio mor bwysig oedd eu bod yn deall swm y cyllid a fyddai'n cael ei newid mewn pryd i hyn gael ei adlewyrchu yn eu penderfyniadau cyllideb hwy eu hunain ond hefyd yn gofyn am eglurhad pellach ar nifer o bwyntiau. Mae'r eglurhad hwn yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol.

55 Mae'r Bwrdd wedi myfyrio ynghylch yr ymatebion hyn ac o ganlyniad mae wedi ail-ystyried y cynnydd arfaethedig mewn cyfraddau ffioedd sydd wedi cael ei ostwng i 4.8% ar gyfer y cynllun ffioedd drafft sydd wedi'i atodi.

56 Byddwn hefyd yn cydweithio'n agos gyda chyrff a archwilir i liniaru effaith rhoi ISA315 ar waith ar eu ffi archwilio. I'r rhan fwyaf o'r cyrff y bydd y cynnydd hwn yn effeithio arnynt, mae ein ffi yn gyfran fechan iawn o gyfanswm eu gwariant. I, dyweder, fwrdd iechyd mawr sydd â chyllideb o dros £1bn – mae cynnydd o 12% yn eu ffi archwilio yn cyfateb i £25,000. I gorff bach mewn llywodraeth leol neu yn y llywodraeth ganolog, oddeutu £5,000 fyddai'r ffigwr.

## Cyllideb incwm o ffioedd 2023-24

57 Rydym yn rhagweld cynnydd cyffredinol mewn incwm ffioedd archwilio yn 2023-24 o 7%, cynnydd o 4.8% yng nghyfraddau ein ffioedd a chynnydd o 15% ar gyfartaledd yn ein yn ein hincwm o ffioedd archwilio cyfrifon, sy'n gysylltiedig â rhoi ISA315 ar waith.

# Ein defnydd o Gronfa Gyfunol Cymru 2023-24

## Sut yr ydym yn defnyddio Cronfa Gyfunol Cymru

58 Rydym yn defnyddio’r cyllid a ddarperir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru at y prif ddibenion canlynol:

- cyllido gwaith archwilio nad yw’n cael ei gyllido ag incwm o ffioedd – mae hyn yn cynnwys ein rhaglen Astudiaethau Cenedlaethol a Llywodraeth Leol.
- cyfrannu at gostau rhedeg Archwilio Cymru, gan gynnwys costau sy’n gysylltiedig â Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, cost y cynnydd yng nghostau pensiynau yn 2019-20, costau dysgu a datblygu ar gyfer ein staff a chostau ein harchwilwyr allanol ni ein hunain y mae eu ffioedd wedi cynyddu fwy na 50% eleni.
- ein rhaglen hyfforddiant ariannol Cymru Gyfan.
- ein Cyfnewidfa Arfer Da; a
- mynediad am ddim at y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer yr holl gyrff sy’n cymryd rhan.

59 Hefyd, mae ein holl fuddsoddiad cyfalaf yn cael ei gyllido’n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.


60 Mae **Arddangosyn 3** yn nodi manylion y newidiadau yn ein defnydd o Gronfa Gyfunol Cymru rhwng 2022-23 a 2023-24.

**Arddangosyn 3: newidiadau yn ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru rhwng 2022-23 a 2023-24**

| | Refeniw £'000 | Cyfalaf £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llinell Sylfaen Cronfa Gyfunol Cymru 2022-23** | **8,298** | **310** | **8,608** |
| Cost uwch gwaith archwilio | 221 | - | 221 |
| Seiberddiogelwch | 60 | | 60 |
| Cynnydd mewn costau hyfforddi graddedigion | 50 | - | 50 |
| Cynnydd mewn archwilio allanol | 20 | | 20 |
| IFRS16 | 80 | - | 80 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | (68) | | (68) |
| Cyllid un flwyddyn y Fenter Twyll Genedlaethol | (35) | - | (35) |
| **Llinell Sylfaen Cronfa Gyfunol Cymru 2023-24** | **8,626** | **310** | **8,936** |
| Cyllid cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | (130) | | (130) |
| Gostyngiad dros 2 flynedd mewn LT | (354) | - | (354) |
| **Cyfanswm Cronfa Gyfunol Cymru 2023-24** | **8,142** | **310** | **8,452** |

61 Mae **Arddangosyn 4** yn darparu dadansoddiad sy'n dynodi sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i gyflawni ein gwaith yn 2023-24.

**Arddangosyn 4: ein defnydd o gyllid Cronfa Gyfunol Cymru 2023-24**



## Gwaith archwilio a gyllidir o Gronfa Gyfunol Cymru

### Astudiaethau Cenedlaethol a Llywodraeth Leol

62 Cynhelir rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol i roi cymorth i waith craffu'r Senedd. Adroddir yr astudiaethau hyn wrth Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PCCGG) y Senedd ac fe'u disgrifir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23.

63 Defnyddir y cyllid hwn hefyd i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer cyrff perthnasol y llywodraeth ganolog.

64 Y PCCGG yw un o'r mecanweithiau allweddol i'r Senedd ddwyn y sefydliadau y mae'n eu cyllido'n uniongyrchol neu drwy Lywodraeth Cymru i gyfrif. Ein nod felly yw sicrhau bod y Pwyllgor yn cael ei gefnogi'n dda gennym yn ei waith. Yn gynyddol, rydym hefyd yn cefnogi gwaith pwyllgorau eraill y Senedd.

65 Rydym wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer y meysydd gwaith hyn ar gyfer 2023-24 yn unol â'r cynnydd arfaethedig yng nghyfraddau ein ffioedd.

### Gwaith Archwilio Perfformiad Lleol

66 Fel rhan o'n strategaeth pum mlynedd i gefnogi ein huchelgais i 'fanteisio'n llawn ar ein safbwynt, arbenigedd a dyfnder mewnwelediad unigryw', rydym wedi cynnig newid tua thraean o'r cyllid (£1.26m) ar gyfer peth o'n gwaith archwilio perfformiad mewn Llywodraeth Leol ac mewn cyrff Iechyd o ffioedd i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn yr Amcangyfrif hwn.

67 Mae'r elfennau o'n ffi archwilio perfformiad yr oeddem yn ceisio'u newid i Gronfa Gyfunol Cymru'n ymwneud â chyflawni adolygiadau 'thematig' neu bwnc-benodol sy'n nodweddiadol yn cynnwys gwaith archwilio ar draws sawl corff a archwilir (ar lefel Cymru Gyfan a/neu ranbarthol) ac sy'n aml â ffocws traws-sectoraidd neu system-gyfan. Efallai y byddwn ni hefyd yn edrych ar faterion fel arweinyddiaeth system Llywodraeth Cymru ar y thema sy'n cael ei harchwilio, nad oes modd ei wneud â chyllid o ffioedd archwilio.

68 Roeddem yn ystyried bod adolygiadau o'r fath yn ychwanegu gwerth at ein cyfundrefn archwilio gyda'u gallu i roi golwg system gyfan, gan helpu i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i drethdalwyr, a rhoi adborth ar ddatblygiadau 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru' Llywodraeth Cymru. Roeddem yn awyddus i gyflawni'r adolygiadau hyn mewn modd mor hyblyg ac effeithlon â phosibl. Roedd y cyfyngiadau allweddol a bwysleisiwyd gennym am y model cyllido presennol yn ymwneud â'r canlynol:

- anhyblygrwydd posibl yn y ffordd yr ydym yn lledaenu canfyddiadau – sy'n deillio o unrhyw ddisgwyliad gan gyrff a archwilir sy'n talu ffioedd y byddai allbwn sy'n ymwneud yn benodol â'r corff hwnnw fel rheol; a
- chymhlethdod trafodol – o ystyried yr angen i gadw cydbwysedd o ran codi tâl am amser ar draws codau lluosog ar ddalenni amser a chyda'r gofynion i 'beidio â chodi mwy na'r gost lawn' yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, gan olygu bod yn rhaid i ni fod yn ofalus nad oes trawsgymhorthdal o un corff i'r llall.

69 Rydym wedi ymgynghori â chyrff a archwilir trwy ein hymgynghoriad ar Raddfeydd Ffioedd a dim ond 3 chorff a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn – gan gynnwys Llywodraeth Cymru (fel a nodir ym **mharagraff 56**).

70 Mewn grwpiau ffocws i randdeiliaid a gynhaliwyd i helpu i lunio datblygiad ein strategaeth 5 mlynedd, roedd y newid i fwy o adrodd 'ar draws y system' yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol iawn, gan ddarparu mewnwelediad y mae Archwilio Cymru mewn sefyllfa unigryw i'w gyflwyno.

71 Nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu cadarnhau, cyn cyflwyno'r Amcangyfrif hwn, ei bod yn cefnogi gwneud yr addasiadau mewn awdurdod lleol a chyllid y corff iechyd angenrheidiol i ddal WCF yn ddiniwed. O ganlyniad, nid yw'r newid yn cael ei adlewyrchu yn yr Amcangyfrif hwn. Bydd hynny'n cyfyngu ar ein gallu i ymgymryd â gwaith trawsbynciol a system gyfan, a gafodd groeso eang gan randdeiliaid yn ystod datblygiad ein strategaeth 5 mlynedd.

## Gwaith arall sy'n gysylltiedig ag archwilio

72 Fel a gytunwyd mewn Amcangyfrifon blaenorol, rydym hefyd yn defnyddio cyllid Cronfa Gyfunol Cymru i:

- wneud darnau blynyddol o waith i archwilio themâu sy'n codi o'n gwaith cyfrifon;
- cynnal datblygiad angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'n gwaith archwilio perfformiad mewn Llywodraeth Leol; ac
- ymchwilio i faterion a ddygwyd i'n sylw gan aelodau'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig, ac ymateb iddynt.

73 Unwaith eto, rydym wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer y meysydd gwaith hyn ar gyfer 2023-24 yn unol â'n codiadau arfaethedig yng nghyfraddau'r ffioedd.

# Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru er budd y sector cyhoeddus ehangach

## Datblygu sgiliau ariannol dros Gymru gyfan

74 Mae cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru'n cael ei ddefnyddio i roi cymorth parhaus i'n rhaglen lwyddiannus sy'n darparu cyfleoedd i fyfyrwyr o bob cwr o Gymru fel hyfforddeion graddedig a phrentisiaid.

75 Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi tua 60 o hyfforddeion graddedig a phrentisiaid, gan roi cyfleoedd hyfforddi o'r radd flaenaf iddynt a sicrhau cyflenwad o weithwyr cyllid proffesiynol y dyfodol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru.

76 Rydym yn defnyddio cyllid Cronfa Gyfunol Cymru i:

- ddarparu cyfleoedd ar gyfer secondiadau i'n hyfforddeion graddedig mewn cyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru;
- targedu ein gweithgarwch recriwtio i wella amrywiaeth gymdeithasol a chynhwysiant yn ein gweithlu a'r proffesiwn cyllid ehangach yng Nghymru; a
- chefnogi'r costau hyfforddi ar gyfer ein rhaglen hyfforddiant i raddedigion, gan leihau costau a fyddai fel arall yn cael eu hadennill o ffioedd.

77 Bu'n angenrheidiol cyflwyno cynnydd o £50,000 yn swm y cyllid ar gyfer y rhaglen hon yn 2023-24 er mwyn adlewyrchu costau hyfforddiant uwch i'n hyfforddeion graddedig.

## Y Gyfnewidfa Arfer Da

78 Rydym yn defnyddio cyllid a ddarperir gan Gronfa Gyfunol Cymru i redeg ein rhaglen Arfer Da sy'n uchel ei pharch yn rhad ac am ddim ar gyfer cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector ledled Cymru.

79 Yn ystod pandemig COVID-19, fe wnaethom dargedu adnoddau i ffwrdd o redeg digwyddiadau dysgu ar y cyd ar safleoedd i rannu allbynnau o'n prosiect dysgu COVID-19 mewn amser real. Ers hynny, rydym wedi parhau i ddarparu digwyddiadau ac adnoddau ar-lein ac rydym bellach yn y broses o gwblhau ein rhaglen o allbynnau Arfer Da sydd ar ddod ac a fydd yn cynnwys adfer digwyddiadau wyneb-yn-wyneb gan ddechrau o fis Hydref 2022.

80 Rydym yn parhau i roi cymorth hwyluso a darparu adnoddau ar-lein fel blogiau a phodlediadau sydd ar gael ar ein gwefan.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

81 Ers 2015, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cefnogi'r egwyddor o gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru am ddim cost i'r cyrff hynny. Nododd ein hadroddiad dwyflynyddol diwethaf arbedion a gordaliadau posibl o £8 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynyddu'r arbedion cronnus i £42.9 miliwn ers 1996 – adenillion sylweddol ar fuddsoddiad.

82 Heb y cyllid hwn, byddai angen yn hytrach trosglwyddo costau gwneud y gwaith hwn yn uniongyrchol i'r cyrff sy'n cymryd rhan fel ffioedd ychwanegol, gan arwain o bosibl at ostyngiad sylweddol yn nifer y cyrff sy'n dewis cymryd rhan.

83 Ar gyfer 2022-23 cytunodd y Pwyllgor Cyllid gyflwyno cynnydd o £80,000 yn y cyllid a ddyrennir i'r Fenter Twyll Genedlaethol er mwyn ein galluogi i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu offer dadansoddi data i adnabod trafodion sydd â risg uchel o dwyll. O'r cynnydd hwn, roedd £35,000 ar gyfer costau sefydlu blwyddyn gyntaf sy'n gysylltiedig â chael mynediad at wybodaeth gwirio manylion banc. Ni fydd angen y cyllid yma o 2023-24.

84 Gall y cyllid ar gyfer ein gwaith ar y Fenter Twyll Genedlaethol gynyddu / gostwng bob yn ail flwyddyn i dalu costau dwyflynyddol Swyddfa'r Cabinet ar gyfer gwirio data. Yn 2023-24 bydd gostyngiad o £130,000 o'i gymharu â 2022-23.

85 Ceir dadansoddiad llawn o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn **Arddangosyn 5**.

**Arddangosyn 5: dadansoddiad o gostau'r Fenter Twyll Genedlaethol o 2022-23 i 2024-25**

| | 2023-24 £'000 | 2022-23 £'000 | Newid £'000 |
|---|---|---|---|
| Offer Gwirio Ceisiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (App Check). | 50 | 50 | - |
| Taliadau i Swyddfa'r Cabinet (bob yn ail flwyddyn) | - | 130 | (130) |
| Ymarferion paru data ychwanegol | 45 | 80 | (35) |
| **Cyfanswm** | **95** | **260** | **(165)** |

# Buddsoddi cyfalaf

86 Mae ein blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf ar gyfer 2022-23 i 2026-27 wedi'u nodi yn **Arddangosyn 6**.

87 Mae buddsoddi cyfalaf wedi'i dargedu at brosiectau a fydd yn sicrhau effeithlonrwydd ac arbedion yn y dyfodol; sicrhau bod ein darpariaeth TGCh yn gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg sydd ar gael a'n bod yn manteisio ar y datrysiadau digidol sydd ar gael wrth gyflawni ein gwaith.

**Arddangosyn 6: buddsoddi cyfalaf 2022-23 i 2026-27**

| | 2022-23 £'000 | 2023-24 £'000 | 2024-25 £'000 | 2025-26 £'000 | 2026-27 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Newid | 200 | 200 | 400 | 400 | 400 |
| Strategaeth TGCh | 110 | 110 | 110 | 110 | 110 |
| **Cyfanswm** | **310** | **310** | **510** | **510** | **510** |

## Ein Rhaglen Newid

88 Rydym wedi sefydlu rhaglen drawsnewid o fewn Archwilio Cymru i ddarparu rheolaeth effeithiol ar brosiectau newid sydd ar fin digwydd. Bydd angen buddsoddiad cyfalaf ar rai o'r rhain fel a nodir isod.

### Gweithleoedd ar gyfer y dyfodol

89 Dyma ein prosiect newid mwyaf sylweddol hyd yma ac, yn 2022-23, o ganlyniad i Amcangyfrif Atodol yn ystod y flwyddyn, byddwn yn cwblhau'r broses o adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd i adeilad newydd, llai, a fydd yn sicrhau arbedion sylweddol ar ein costau swyddfeydd. Rydym yn parhau i adolygu ein hanghenion o ran adeiladau ar gyfer ein swyddfeydd eraill ym Mhenlle'r-gaer ac Abergele ac mae ein rhaglen newid yn cynnwys cyllid a fydd yn ein galluogi i sicrhau bod y swyddfeydd hyn yn dal i ateb ein gofynion sy'n dod i'r amlwg o ran gweithleoedd.

## Ein Strategaeth Ddigidol

90 Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn offer digidol i sicrhau y gallwn gyflawni ein gwaith mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Mae'r buddsoddiad arfaethedig ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

- cwblhau gwaith i ddatblygu meddalwedd platfform archwilio newydd ar gyfer ein gwaith archwilio Ariannol a Pherfformiad;
- datblygiad arfaethedig ein gwefan allanol i ddiwallu gofynion ein rhanddeiliaid yn well; a
- gwelliannau i systemau gwybodaeth rheoli.

## Ein Strategaeth TGCh

91 Rydym wedi sefydlu rhaglen dreigl o adnewyddu offer cyfrifiaduron personol/TG er mwyn sicrhau parhad busnes a bod offer yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben ac yn ddibynadwy.

# Addasiadau IFRS16

## Cefndir

92 Roedd safon gyfrifyddu newydd, Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi (IFRS 16), i fod i ddod i rym o flwyddyn ariannol 2020-21. Oherwydd materion a grëwyd gan bandemig COVID, penderfynodd Trysorlys EM a'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) ohirio gweithredu IFRS 16 tan fis Ionawr 2022.

93 Roedd ein Hamcangyfrif Atodol Cyntaf ar gyfer 2022-23 yn adlewyrchu'r newidiadau mewn triniaeth gyfrifyddu sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu IFRS 16 yn ein cyfrifon yn 2022-23.

94 Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol rhoi cyfrif yn gyson am bob prydles. Yn flaenorol, nid oedd prydlesi a oedd yn perthyn i'r dosbarth 'prydlesi gweithredu' yn cael eu cydnabod ac adroddid arnynt 'oddi ar y fantolen'. Mae'r newid hwn yn effeithio'n bennaf ar y driniaeth i brydlesi ein tair swyddfa yn Heol y Gadeirlan, Caerdydd, Penlle'r-gaer ac Abergele, nad ydynt yn cael eu dosbarthu fel asedau a'u dibrisio ar hyn o bryd.

95 Ar gyfer 2022-23, o ystyried y cyfnod byr sy'n weddill ar brydlesi ein swyddfeydd, roedd yr effaith net ar adnoddau ar gyfer Archwilio Cymru yn fach iawn, ac nid oedd angen gwneud addasiad i'n cyllidebau adnoddau cyffredinol na'n cyllidebau arian parod.

## Effaith ar Amcangyfrif 2023-24

96 Ar gyfer 2023-24 byddwn yn llofnodi prydles newydd ar swyddfa yng Nghwr y Ddinas, Caerdydd ac yn terfynu'r brydles yn Heol y Gadeirlan. Mae angen sicrwydd adnoddau ychwanegol o £80,000 ar gyfer dibrisiant sy'n gysylltiedig ag IFRS16. Nid oes angen sicrwydd arian parod ychwanegol.

97 Mae’r addasiadau cysylltiedig mewn arian parod a heb fod mewn arian parod wedi’u nodi isod.

| | **£’000** |
|---|---|
| Dibrisiant sy’n gysylltiedig ag IFRS 16 a llog (Heb fod mewn arian parod) | 360 |
| Taliadau rhent prydlesi | (280) |
| Addasiad adnoddau net | 80 |

98 Ar wahân i hynny, yn 2023-24 bydd angen i ni setlo hawliad dadfeilio yn dilyn gadael ein swyddfa yn Heol y Gadeirlan. Mae darpariaeth ar gyfer hyn wedi’i gronni yn ein cyfrifon dros nifer o flynyddoedd ac felly nid oes angen sicrwydd adnoddau ychwanegol. Mae uchafswm gofyniad arian parod o £550,000 wedi’i gynnwys yn ein Hamcangyfrif gydag unrhyw arian parod nas defnyddiwyd yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

# Gofynion cyllido yn y dyfodol

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

99 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynnig i ymestyn Deddf LlCD i 8 corff ychwanegol. Mae'r rhain bellach yn cynnwys dau gorff nad yw Archwilydd Cyffredinol Cymru'n archwilydd allanol iddynt (Trafnidiaeth Cymru a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol) a thri (Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, ac Awdurdod Cyllid Cymru) lle nad oes gennym drefniadau archwilio perfformiad lleol i ystyried ymgorffori gwaith LlCD oddi mewn iddynt. Y tri arall yw cyrff y GIG, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gofal Iechyd Digidol Cymru, ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

100 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y byddai'r cyrff newydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant o 1 Ebrill 2023, ac y byddai disgwyl i gyrff bennu eu hamcanion llesiant o fewn 12 mis (erbyn mis Mawrth 2024). Os bydd gofyn i ni gyflawni ein dyletswyddau LlCD ar draws y cyrff hyn erbyn mis Mawrth 2025 yna bydd hyn yn cael effaith ar ffurf ein rhaglen waith ddewisol dros y ddwy flynedd nesaf.

101 Bydd unrhyw adnodd ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith hwn mwy na thebyg o 2024-25 ond os yw canlyniad yr ymarfer ymgynghori'n golygu bod rhaid i'n gwaith ddechrau'n gynt na'r disgwyl, efallai y bydd angen cyflwyno Amcangyfrif Atodol yn 2023-24 i ddarparu'r adnoddau ychwanegol gofynnol.

102 Nid oes darpariaeth ar gyfer costau cysylltiedig na chyllid wedi'i chynnwys eto yn ein CATC tra bo canlyniad yr ymarfer ymgynghori yn yr arfaeth.

# Ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig

103 Nodir isod newidiadau hysbys i'n sefyllfa ariannol tymor canolig. O ystyried yr ansicrwydd presennol ynghylch chwyddiant, nid ydym wedi lwfio am godiadau mewn prisiau yn y dyfodol ar ôl 2023-24. Fodd bynnag, mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer newidiadau hysbys gan gynnwys:

- gweithredu ein trefniadau teithio a chynhaliaeth newydd yn llawn o fis Ebrill 2024 gan gynnwys diwedd ar dalu'n ôl i Gronfa Gyfunol Cymru.
- yr effaith ar incwm o ffioedd ac adnoddau cysylltiedig o fis Ebrill 2024 wrth i'n gwaith ar Gronfeydd Amaethyddol yr UE ddod i ben.
- cyllid bob dwy flynedd ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.

**Arddangosyn 7: Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023-24 i 2027-28**

| | 2023-24 £'000 | 2024-25 £'000 | 2025-26 £'000 | 2026-27 £'000 | 2027-28 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff | 20,374 | 20,846 | 21,105 | 21,186 | 21,188 |
| Adeiladau | 754 | 754 | 754 | 754 | 754 |
| TaCh | 435 | 290 | 290 | 290 | 290 |
| Costau cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | 0 | 130 | 0 | 130 | 0 |
| Costau eraill | 2,712 | 2,712 | 2,712 | 2,712 | 2,712 |
| **Cyfanswm gwariant** | **24,275** | **24,732** | **24,861** | **25,072** | **24,944** |
| Incwm o Ffioedd Archwilio | 16,133 | 16,106 | 16,365 | 16,446 | 16,448 |
| Cyfanswm galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru (Refeniw) | 8,142 | 8,626 | 8,496 | 8,626 | 8,496 |
| **Cyfanswm cyllid refeniw** | **24,275** | **24,732** | **24,861** | **25,072** | **24,944** |
| Cyfanswm galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru (Cyfalaf) | 310 | 510 | 510 | 510 | 510 |

# Atodiadau

1 Cyllideb refeniw 2023-24

2 Cynllun Ffioedd Drafft 2023-24

# 1 Cyllideb refeniw 2023-24

| | | Amcangyfrif 2023-24 £'000 | Amcangyfrif[4] 2022-23 £'000 | Cynnydd/ (Gostyngiad) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Treuliau | Costau staff | 20,241 | 19,511 | 730 |
| | Costau staff parthed ISA315 | 800 | - | 800 |
| | Rheoli swyddi gwag | (987) | (939) | (48) |
| | Teithio a chynhaliaeth | 435 | 638 | (203) |
| | Adeiladau | 754 | 976 | (222) |
| | TAW Anadferadwy | 500 | 500 | - |
| | TGCh | 699 | 633 | 66 |
| | Llywodraethu Archwilio Cymru | 320 | 300 | 20 |
| | Hyfforddiant allanol | 341 | 278 | 63 |
| | Costau blynyddol y Fenter Twyll Genedlaethol | 95 | 130 | (35) |
| | Dibrisiant | 360 | 280 | 80 |
| | Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 1,217 | 1,089 | 128 |
| | Targed arbedion | (500) | (500) | - |
| | **CYFANSWM** | **24,275** | **22,896** | **1,379** |
| | Costau cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | - | 130 | (130) |
| | **Cyfanswm treuliau** | **24,275** | **23,026** | **1,249** |
| Incwm | Ffioedd Archwilio | 14,605 | 13,619 | 986 |
| | Archwiliad o Gronfeydd Amaethyddol yr UE | 600 | 650 | (50) |
| | Ffioedd ardystio grantiau | 928 | 813 | 115 |
| | **CYFANSWM INCWM** | **16,133** | **15,082** | **1,051** |
| **Cyfanswm i'w gyllido o Gronfa Gyfunol Cymru** | | **8,142** | **7,944** | **198** |

4 Amcangyfrif Atodol cyntaf 2022-23

## 2 Cynllun Ffioedd Drafft 2023-24

# Cynllun Ffioedd 2023-24

Cynllun ffioedd yw hwn a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Gosodir y cynllun ffioedd hwn gerbron y Senedd o dan adran 24(4)(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2022



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

# Cynnwys


## Trosolwg

Cyflwyniad

Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd

Codi ffioedd

## Atodiadau

1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

2 Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi wneud

3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2022

# Cyflwyniad

## Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd

1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (**Atodiad 1**). Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd, mae'r Cynllun Ffioedd yn darparu'r sail yr ydym yn codi ffioedd arni.

### Cyfraddau ffioedd 2023-24

2 Fel a nodwyd yn ein hymgynghoriad ar ffioedd arfaethedig ym mis Awst 2022, mae angen i ni gydnabod pwysau costau byw ar ein staff ac rydym wedi darparu ar gyfer codiadau cyflog yn unol â gweddill y sector cyhoeddus. Lle y bo'n bosibl rydym wedi lliniaru pwysau chwyddiant trwy nodi arbedion ar gyllidebau nad ydynt yn gyflogau fel adeiladau a theithio gydag arbedion o dros £2m dros y 5 mlynedd nesaf yn cael eu nodi.

3 Rydym yn parhau i wneud buddsoddiad sylweddol yn ansawdd archwilio i ymateb i adolygiadau diweddar ledled y DU o archwilio a safonau proffesiynol newydd. Mae'r adolygiadau amrywiol hyn yn adlewyrchu disgwyliadau cynyddol o archwilio ac o ansawdd yr archwilio hwnnw.

4 Mae cymryd y ffactorau hyn gyda'i gilydd yn golygu bod angen i ni gynyddu cyfraddau ein ffioedd o 4.8% ar gyfartaledd yn 2023-24 - gostyngiad o'i gymharu â'r cynnydd arfaethedig o 5.5% a nodwyd yn ein papur ymgynghori.

5 Rydym yn bwriadu parhau i ddarparu mynediad at y Fenter Twyll Genedlaethol yn rhad ac am ddim.

6 Mae ein cyfraddau ffioedd arfaethedig ar gyfer 2023-24 wedi'u nodi yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: cyfraddau ffioedd arfaethedig 2023-24**

| Gradd | Cyfradd (£ yr awr) 2023-24 | Cyfradd (£ yr awr) 2022-23 |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Archwilio | 168 | 163 |
| Rheolwr Archwilio | 129 | 122 |
| Arweinydd Archwilio | 106 | 100 |
| Uwch Archwilydd | 85 | 84 |
| Archwilydd | 61 | 60 |
| Hyfforddai graddedig | 55 | 51 |
| Prentis | 40 | 39 |

7 Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn nodi:

- y deddfiadau yr ydym yn codi ffioedd archwilio oddi tanynt.
- y trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny, sy'n cynnwys naill ai:
  - graddfeydd ffioedd sy'n nodi ystodau ffioedd ar gyfer meysydd penodol o waith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
  - gyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nas cwmpesir gan raddfeydd ffioedd.

8 Yn fras, cyllidir 66% o'n gwariant trwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. Daw'r 34% sy'n weddill o Gronfa Gyfunol Cymru trwy'r cynnig cyllidebol a basiwyd gan y Senedd.

9 Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r ffioedd yr ydym yn eu codi ar gorff beidio â bod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi yn ymwneud â hi ar gyfer y corff hwnnw. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio ar sail ein hamcangyfrif o'r sylfaen gostau, yr amcangyfrif o'r cymysgedd o sgiliau ar gyfer gwaith archwilio a'r amcangyfrif o nifer y diwrnodau y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Nid ydym yn gwneud ac ni chawn wneud elw ar ein gwaith. Mae cyfraddau ein ffioedd wedi eu pennu ar lefel er mwyn adennill yr amcangyfrif o'r gost lawn, ond dim mwy.

10 Ceir tensiwn rhwng rhoi ffi ymlaen llaw i gyrff archwiliedig am y gwaith sydd i'w wneud ar archwiliadau penodol a bod â chyfundrefn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiannau'n anochel. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio ar sail yr amcangyfrif o'n gwariant, yr amcangyfrif o'r cymysgedd o sgiliau a'r amcangyfrif o nifer y diwrnodau y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Pan fydd y gwaith gofynnol yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol, o ganlyniad i gymhlethdodau yn ystod yr archwiliad, efallai y byddwn yn codi ffi uwch, fel a ganiateir gan ddeddfwriaeth.

11 Aethom y tu hwnt i'r gofynion ymgynghori statudol ar ffioedd ac, ym mis Awst 2022, gwnaethom ymgynghori â'r holl gyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ar gyfraddau ein ffioedd a'n graddfeydd ffioedd arfaethedig ar gyfer 2023-24.

12 Cawsom 17 ymateb a ddywedodd wrthym:

- y byddai'r cynnydd o 5.5% yng nghyfraddau ein ffioedd ac, yn benodol, y cynnydd o 12%-18% yng ngraddfeydd ein ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon, yn gryn her i'r cyrff hynny yr oedd eu cyllidebau eu hunain yn cynyddu ar yr un lefel ac a oedd yn wynebu'r un pwysau costau byw ag Archwilio Cymru.
- bod cyrff a archwilir yn gwerthfawrogi'r gwaith yr ydym yn ei wneud ac yn cydnabod nad oes modd osgoi rhoi ISA315 ar waith.
- roedd yr amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad, a oedd yn seiliedig ar y gofyniad i gynnwys Cynllun Ffioedd drafft o fewn yr Amcangyfrif hwn, yn anodd i rai cyrff.

13 Gwnaethom ofyn yn benodol i gyrff a archwilir a Llywodraeth Cymru wneud sylwadau ar y newid arfaethedig o ffioedd i Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer cyfran o'n gwaith Archwilio Perfformiad lleol. Dim ond 3 ymateb a gawsom gan gyrff a archwilir ar y pwynt hwn:

- pryder gan un Awdurdod Unedol y gallai'r adolygiadau thematig arfaethedig fod yn llai perthnasol na'r gwaith archwilio perfformiad lleol.
- ymholiad gan un Awdurdod Tân ac Achub pam nad oedd y newid yn berthnasol i'w gwaith hwy.
- ymateb gan Lywodraeth Cymru a oedd yn pwysleisio mor bwysig oedd eu bod yn deall swm y cyllid a fyddai'n cael ei newid mewn pryd i hyn gael ei adlewyrchu yn eu penderfyniadau cyllideb hwy eu hunain ond hefyd yn gofyn am eglurhad pellach ar nifer o bwyntiau.

14 Mae'r Bwrdd wedi myfyrio ynghylch yr ymatebion hyn ac wedi ymateb trwy ail-ystyried y cynnydd arfaethedig mewn cyfraddau ffioedd, gan ostwng y cynnydd arfaethedig o 5.5% i 4.8%.

15 Byddwn yn cydweithio'n agos gyda chyrff a archwilir mewn ymgais i liniaru effaith rhoi ISA315 ar waith ar eu ffi archwilio.

## Graddfeydd Ffioedd Llywodraeth Leol 2023-24

16 Ffordd o reoleiddio cost archwiliadau cyhoeddus yw graddfeydd ffioedd, trwy bennu terfynau ac adolygu ffioedd o'u cymharu â'r terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd yn darparu fframwaith hefyd fel y gall archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol y mae ei angen a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw mewn corff penodol a archwilir.

17 Darperir graddfeydd ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon ariannol 2022-23, ynghyd â gwaith archwilio perfformiad a gyllidir â ffioedd yn 2023-24, yn **Atodiad 3** mewn perthynas ag awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu, prif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned, a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol.

18 Darperir graddfa ffioedd ar wahân mewn perthynas â'r Fenter Twyll Genedlaethol.

19 Mae archwilio perfformiad yn cynnwys archwiliadau datblygu cynaliadwy, archwiliadau gwybodaeth gwella, asesiadau gwella ac archwiliadau arbennig. Nid yw'r holl swyddogaethau hyn yn berthnasol i bob math o gorff a archwilir.

20 Amcangyfrifir ffioedd archwilio cyrff a archwilir nas cwmpesir gan y gofyniad statudol am raddfa ffioedd yn yr un modd â'r rhai a gwmpesir ganddo – hynny yw, trwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn i'r amcangyfrif o'r cymysgedd o sgiliau yn y tîm a nifer yr oriau sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r archwiliad.

21 Mae archwilwyr yn gwneud gwaith ardystio grantiau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n cael eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Cyfrifir taliadau am y gwaith hwn trwy ddefnyddio'r cyfraddau ffioedd a chan adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol mewn cysylltiad â'r grant dan sylw.

22 Mae'r cyfraddau ffioedd yn berthnasol i'r holl waith archwilio ac eithrio i'r graddau y mae'r graddfeydd ffioedd, pan fo'n berthnasol, yn rheoleiddio'r swm sydd i'w godi (neu yn achos gwaith a wneir o dan gytundebau a wnaed cyn 1 Ebrill 2014, mae'r cyfraddau ar sail telerau y cytunwyd arnynt). Os yw'n ymddangos wedyn bod y gwaith sy'n gysylltiedig ag archwiliad penodol yn wahanol iawn i'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, gallwn godi ffi sy'n wahanol i'r hyn yr hysbyswyd yn ei gylch yn wreiddiol.

23 Yn achos y gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill a ddarperir, codir ffioedd yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod nad yw symiau o'r fath yn fwy na chost lawn darparu'r gwasanaeth.

24 Er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol, weithiau mae angen i archwilwyr wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn cysylltiad â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd taliadau ar gyfer y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sy'n ofynnol a chânt eu cyfrifo trwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a gyhoeddwyd yn y Cynllun Ffioedd hwn i'r cymysgedd o sgiliau yn y tîm a'r oriau o fewnbwn sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith.

25 Pan fo angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, bydd y tâl am hyn yn cael ei godi ar gyrff a archwilir yn ychwanegol at gost ein staff archwilio ni.

### Rhoi ISA315 ar waith

26 Fel a nodwyd yn ymgynghoriad mis Awst, bydd ein harchwiliadau ar gyfer cyfrifon a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn cael eu cynnal o dan safon archwilio ddiwygiedig (ISA 315 Adnabod ac Asesu Risgiau o Gamddatganiadau Perthnasol). Bydd y safon ddiwygiedig yn cael effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar sut y mae archwilwyr yn cynnal asesiadau risg archwilio ac felly ar yr archwiliad ar y cyfan. Disgwylir y bydd archwiliadau - yn enwedig ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r safon (archwiliadau 2022-23) – yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddefnyddio staff â chymwysterau uwch i ymdrin â'r lefel uwch o farn a wneir yn angenrheidiol gan y safon.

27 Ein hasesiad cychwynnol ni o effaith y cymysgedd o sgiliau cyfoethocach hwn yw y bydd cynnydd cyfartalog yn y graddfeydd ffioedd ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol, sef rhwng 12% a 18%. Amcangyfrif yw hwn ar hyn o bryd a chaiff ei adolygu ar ôl rhoi ein dull diwygiedig ar waith yn hanner cyntaf 2023. Rydym yn ymwybodol bod cwmnïau archwilio'r sector preifat wedi ysgrifennu at gleientiaid yn eu hysbysu bod ffioedd yn debygol o gynyddu hyd at 20%, o ganlyniad i'r gofyniad newydd hwn.

## Codi ffioedd

28 Bydd Cyfarwyddwr Ymgysylltu pob corff yn esbonio'r cymysgedd o sgiliau y mae ei angen ar gyfer yr archwiliad a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffi ar y cyfan. Cytunir ar drefniadau codi tâl gyda chyrff a archwilir, a gallant gwmpasu taliadau untro, cyfnodol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.

29 Disgwylir i gyrff a archwilir dalu ein hanfonebau o fewn eu targed perfformiad ar gyfer taliadau i gredydwyr, sef deng niwrnod fel arfer. Mae'n bosibl y byddwn yn codi tâl am y costau gweinyddol a ysgwyddir wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.

30 Os yw hynny'n ofynnol yn ôl gweithdrefnau cyrff a archwilir, dylid codi archeb brynu am y ffi archwilio y cytunwyd arni cyn cyflwyno anfonebau.

31 Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu'r gwir gostau a ysgwyddwyd wrth gwblhau'r aseiniad o'i gymharu â'r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffi ormodol sy'n fwy na'r gost ac, i'r gwrthwyneb, gallwn godi am gostau ychwanegol lle mae'r ffi'n llai na'r costau. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol mewn modd sy'n ceisio lleihau costau gweinyddol, megis trwy wrthbwyso yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar weithgarwch archwilio.

# Atodiadau

1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

2 Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi wneud

3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2022

# 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

(1) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun sy’n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(2) Rhaid i’r cynllun gynnwys y canlynol:

(a) rhestr o’r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt;

(b) pan fo’r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu’r graddfeydd hynny;

(c) pan fo’r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi swm i’w godi, y swm hwnnw;

(ch) pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo’r ffi a godir.

(3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill:

(a) cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, a

(b) darparu ar gyfer yr adegau a’r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

(4) O ran y cynllun:

(a) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr;

(b) caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, ac

(c) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol [[1]].

1 Mae’r ddeddfwriaeth sy’n bodoli yn cyfeirio at y ‘Cynulliad Cenedlaethol’ er i’r enw newid i ‘Y Senedd’.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:

(a) adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu

(b) adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd), i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddiwygio’r cynllun i gynnwys y raddfa neu’r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle’r rhai a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5) yw’r unig ddiwygiad i gynllun.

(7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

(8) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi’r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

# 2 Rhestr o’r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae’n rhaid iddi wneud

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| Archwiliad o gyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio cyfrifon llywodraeth leol). | Adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau gwerth am arian a gynhelir drwy gytundeb (ac eithrio sefydliadau addysgol a chyrff llywodraeth leol—gweler isod). | Adran 23(3)(a), (b) a (c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 mewn cysylltiad â Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru. | Adran 23 (3) (ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013 |
| Ymchwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (ymchwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy). | Adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Unrhyw swyddogaethau sydd gan awdurdod perthnasol a arferir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu’r Archwilydd Cyffredinol ac a gyflawnir drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol sydd i'w darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru neu’r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. | Adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol. | Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| Cyngor a chymorth a ddarperir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. | Adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998<br>Ceir gwneud telerau talu yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd o dan a24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013 yn unig |
| **Mae’n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer y gweithgareddau canlynol** | |
| Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Cymorth i Brif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant Cymru | Adran 41A(6) o Ddeddf Addysg 1997 |
| Astudiaethau sy’n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (cymdeithasau tai) | Adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |
| Astudiaethau ar gais cyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol | Adran 45(7) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Gwasanaethau ardystio grantiau | Adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau ar gais cyrff addysgol | Adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliadau gwybodaeth gwelliant, asesiadau gwelliant ac arolygiadau arbennig o Awdurdodau Gwella Cymru | Adran 27 o Fesur Llywodraeth Cymru (Cymru) 2009 |
| Arolygiadau arbennig o brif gynghorau | Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

# 3 Graddfeydd Ffioedd 2023-24

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

32 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

33 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn offeryn hynod effeithiol i ganfod ac atal twyll a gordaliadau. Nododd ein hadroddiad dwyflynyddol diwethaf arbedion a gordaliadau posibl o £8 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n cynyddu'r arbedion cronnus i £42.9 miliwn ers 1996.

34 Ers mis Ebrill 2015, mae'r Senedd wedi bod yn talu costau rhedeg y Fenter Twyll Genedlaethol trwy daliad o Gronfa Gyfunol Cymru. Bwriad hyn yw annog sefydliadau i gymryd rhan yn wirfoddol a symleiddio'r trefniadau ar gyfer cyfranogwyr gorfodol. Fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol**

| | **Ffi 2022-23** |
|---|---|
| Awdurdod unedol; comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol | Dim |
| Cyfranogwyr gwirfoddol | Dim |
| Hefyd, gellir rhoi mynediad i'r holl gyfranogwyr at offeryn gwirio ceisiadau'r Fenter Twyll Cenedlaethol (App Check). | Dim |

# Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol

35 Mae ein graddfa ffioedd archwilio cyfrifon yn ystyried yr adnoddau ychwanegol disgwyliedig sy'n ofynnol ar gyfer rhoi ISA315 ar waith wrth archwilio cyfrifon 2022-23. Byddwn yn gweithio gyda chyrff a archwilir i liniaru costau ychwanegol lle y bo'n bosibl.

## Awdurdodau unedol

**Arddangosyn 3: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| | Ystod ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £ miliwn** | **Isafswm £'000** | **Canolrif £'000** | **Uchafswm £'000** | **Canolrif £'000** |
| 100 | 135 | 159 | 183 | 139 |
| 200 | 163 | 191 | 220 | 167 |
| 300 | 181 | 213 | 245 | 186 |
| 400 | 196 | 230 | 265 | 200 |
| 500 | 208 | 244 | 281 | 213 |
| 600 | 218 | 257 | 295 | 223 |
| 700 | 227 | 267 | 307 | 233 |
| 800 | 235 | 277 | 319 | 241 |
| 900 | 243 | 286 | 329 | 249 |
| 1,000 | 250 | 294 | 338 | 256 |
| 1,100 | 256 | 302 | 347 | 262 |
| 1,200 | 262 | 309 | 355 | 268 |

**Arddangosyn 4: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24**

| | Ystod ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod unedol | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 137 | 146 | 164 | 105 |

## Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol

**Arddangosyn 5: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| | Ystod ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob cronfa pensiwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 36 | 48 | 57 | 41 |

## Awdurdodau Tân ac Achub

**Arddangosyn 6: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| | Ystod ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £m | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| 20 | 40 | 47 | 54 | 41 |
| 40 | 48 | 56 | 65 | 49 |
| 60 | 53 | 63 | 72 | 54 |
| 80 | 57 | 68 | 78 | 59 |
| 100 | 61 | 72 | 82 | 62 |

### Arddangosyn 7: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24

| | Ystod ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod tân ac achub | Isafswm £’000 | Canolrif £’000 | Uchafswm £’000 | Canolrif £’000 |
| | 17 | 17 | 17 | 17 |

## Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol

### Arddangosyn 8: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23

| | Ystod ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £m | Isafswm £’000 | Canolrif £’000 | Uchafswm £’000 | Canolrif £’000 |
| 2 | 25 | 29 | 33 | 25 |
| 4 | 30 | 35 | 40 | 30 |
| 6 | 33 | 39 | 45 | 34 |
| 8 | 36 | 42 | 48 | 36 |
| 10 | 38 | 44 | 51 | 39 |

### Arddangosyn 9: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24

| | Fee range | | | Previous Year |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod parc cenedlaethol | Isafswm £’000 | Canolrif £’000 | Uchafswm £’000 | Canolrif £’000 |
| | 22 | 22 | 26 | 21 |

## Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

36 Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol mewn ardal heddlu – y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid. Mater i archwilwyr benderfynu arno fydd rhannu cyfanswm y ffi rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, ar sail gofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan y cyrff.

**Arddangosyn 10: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| | Ystod ffioedd cyfunol ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros cyfunol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid £ miliwn** | **Isafswm £'000** | **Canolrif £'000** | **Uchafswm £'000** | **Canolrif £'000** |
| 50 | 68 | 78 | 89 | 69 |
| 100 | 80 | 93 | 106 | 81 |
| 150 | 88 | 102 | 117 | 90 |
| 200 | 95 | 110 | 125 | 96 |
| 250 | 100 | 116 | 133 | 102 |
| 300 | 105 | 122 | 139 | 106 |
| 350 | 109 | 126 | 144 | 111 |

## Cynghorau tref a chymuned ag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn

37 Mae cynghorau tref a chymuned Cymru yn ddarostyngedig i gyfundrefn archwilio sicrwydd cyfyngedig.

38 Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur yn nodi sut y bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel a nodir yn **Arddangosyn 11**.

**Arddangosyn 11: cylch archwilio tair blynedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned**

| | Grŵp A | Grŵp B | Grŵp C |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 1 | Profi trafodion | Gweithdrefnau cyfyngedig | Gweithdrefnau cyfyngedig |
| Blwyddyn 2 | Gweithdrefnau cyfyngedig | Profi trafodion | Gweithdrefnau cyfyngedig |
| Blwyddyn 3 | Gweithdrefnau cyfyngedig | Gweithdrefnau cyfyngedig | Profi trafodion |

39 Seilir taliadau am y gwaith hwn ar yr amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad yn ôl taliadau sy'n defnyddio'r cyfraddau ffioedd a nodir yn **Arddangosyn 1** ar **dudalen 35**.

40 O dan amgylchiadau pan fo angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd i gyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, gan gynnwys ar ôl cyhoeddi adroddiad cysylltiedig er budd y cyhoedd, cynhelir profion ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.

41 Pwysleisir y bydd y gost wirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn dibynnu ar yr amser gwirioneddol a weithiwyd ar yr archwiliad penodol hwnnw. At ddibenion dangosol yn unig y mae'r ystod ffioedd a ddarperir yn **Arddangosyn 12**.

**Arddangosyn 12: amcangyfrif o'r taliadau amser ar gyfer archwilio cyfrifon cynghorau tref a chymuned 2022-23**

| | Band 1 (<£10k) | Band 2 (<£25k) | Band 3 (<£50k) | Band 4 (<£100k) | Band 5 (<£500k) | Band 6 (>£500k) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio trafodion | £150 – £183 | £170 – £200 | £230 – £282 | £356 – £435 | £635 – £760 | £845 – £1,090 |
| Gweithdrefnau cyfyngedig | £110 – £130 | £136 – £162 | £136 – £162 | £210 – £250 | £210 – £250 | £210 – £250 |

## Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall ym myd llywodraeth leol

42 Heblaw am y mathau hynny o gyrff y mae graddfeydd ffioedd wedi eu rhagnodi ar eu cyfer fel y dangosir uchod, ceir nifer fach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol lle mae ein proses o ragnodi'r raddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion o ran adnoddau yn ffioedd wedi'u seilio'n uniongyrchol ar gostau cyflawni'r gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd fel a nodir yn Arddangosyn 1. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau o Gydbwyllgorau Corfforedig. Mae'n dal yn wir, ar gyfer archwiliadau o'r cyrff hyn, ein bod yn defnyddio dull cwbl gynhwysfawr o gynllunio'r archwiliadau.

43 Ar gyfer cyrff llywodraeth leol o bob math, er mwyn iddo gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol weithiau (y rhai a nodir yn adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac yn adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn cysylltiad â heriau gan etholwyr ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd taliadau am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sy'n ofynnol.

44 Gall archwilwyr hefyd wneud gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n cael eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir taliadau am y gwaith hwn fesul awr ac mae'n adlewyrchu maint, cymhlethdod a/neu unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r grant dan sylw fel a nodir yn **Arddangosyn 13**.

**Arddangosyn 13: amcangyfrifon o gyfrannau cymharol graddau staff archwilio sydd i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau.**

| Gradd y staff | Cymysgedd staff grantiau cymhleth % | Cymysgedd o staff pob math arall o grantiau % |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr ymgysylltu | 1 i 2 | 0 i 1 |
| Rheolwr Archwilio | 4 i 6 | 1 i 2 |
| Arweinydd Archwilio | 18 i 21 | 12 i 16 |
| Archwilydd/hyfforddai graddedig/ prentis | 71 hyd 77 | 81 i 87 |

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a'r dreth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Pen pensiynau athrawon

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru